



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Dyffryn Nantlle  
Ffordd Y Brenin  
Penygroes  
Gwynedd  
LL54 6RL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© **Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog i ddisgyblion 11 i 18 oed yw Ysgol Dyffryn Nantlle. Mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Ar hyn o bryd, mae ganddi 488 o ddisgyblion, gan gynnwys 69 myfyriwr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ym mhentref Penygroes ac mae'n gwasanaethu'r ardal bentrefol a gwledig sydd o'i chwmpas. Mae 13.4% o disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 17.5%. Mae 0.4% o ddisgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru. Nid oes yr un disgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae gan 3% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol. Yn ogystal, mae gan 17% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Daw 84% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd. Mae bron pob disgybl yn gallu siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf ac yn dilyn cwrs Cymraeg. Mae pennaeth mewn gofal wedi bod yn ei rôl ers Ionawr 2014. Mae'r uwch dim rheoli hefyd yn cynnwys dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Nantlle yn 2014-2015 yw £4,785. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,517 a'r lleiafswm yw £4,066. Mae Ysgol Dyffryn Nantlle yn y seithfed safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Anfoddhaol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Anfoddhaol</b>

### Perfformiad presennol

Mae cryfderau ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- Tuedd o welliant mewn safonau yng nghyfnod allweddol 3
- Ymddygiad da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion
- Perfformiad yn y chweched dosbarth
- Ystod eang o opsiynau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth
- Lefelau presenoldeb sydd wedi gwella yn ystod y pedair blynedd diwethaf, y maent bellach yn dda iawn

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad yn anfoddhaol oherwydd:

- Bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn gyson yn sylweddol is na pherfformiad ysgolion tebyg, ac eithrio yn 2013
- Mewn tua hanner y gwersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd
- Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi ei datblygu'n ddigonol
- Nid yw disgyblion yn chwarae rôl digon amlwg ym mywyd yr ysgol
- Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn ddigon effeithiol i sicrhau cysondeb ar draws y pynciau
- Mae cynnwys mwyafrif o'r adroddiadau i rieni yn rhy arwynebol
- Mae ansawdd yr addysgu yn amrywio gormod
- Nid yw'r system olrhain cynnydd yn ddigon effeithiol i herio tanberfformiad

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- Nid yw gweledigaeth y pennaeth dros dro yn cael ei chyfleu yn ddigon effeithiol i'r staff cyfan oherwydd diffyg cyfathrebu ar sawl lefel
- Mae ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel yn rhy amrywiol
- Mae gormod o gyfrifoldebau, yn cynnwys cyfrifoldebau gweinyddol, gan yr uwch dîm rheoli ac nid oes ganddynt ddigon o amser i flaenoriaethu'n strategol
- Nid yw arweinwyr canol yn canolbwyntio ddigon ar wella ansawdd yr addysgu a chodi safonau yn eu hadrannau
- Dim ond yn ddiweddar mae'r llywodraethwyr wedi sefydlu pwyllgor monitro ansawdd i drafod a herio tanberfformiad
- Nid yw'r broses rheoli perfformiad yn ddigon effeithiol i ddwyn staff i gyfrif
- Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn rhan fwyaf o argymhellion yr arolygiad diwethaf
- Nid oes gan y rhan fwyaf o staff swydd ddisgrifiadau cyfredol
- Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus yn aneffeithiol

## Argymhellion

- A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu ac asesu
- A3 Cryfhau a chysoni'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a disgyblion mwy abl a thalentog
- A4 Datblygu rôl arweinwyr ar bob lefel fel eu bod yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau strategol yn llawn
- A5 Cryfhau'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i staff a sicrhau bod mwy o ffocws ar wella dysgu ac addysgu ac ansawdd yr arweinyddiaeth
- A6 Gwella cyfraniad disgyblion a rhieni i benderfyniadau yn yr ysgol.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Anfoddhaol

#### Safonau: Anfoddhaol

Er bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn llawer o'r dangosyddion wedi cynyddu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn parhau i gymharu'n llai ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd perfformiad llawer o ddangosyddion islaw cyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn gyffredinol, ac eithrio yn 2013, nid yw disgyblion yn cyflawni'n ddigon da yn ystod eu hamser yn yr ysgol, yn enwedig yn y dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg.

Yn 2014, roedd perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys pump TGAU graddau A\*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gostwng o gymharu â pherfformiad 2013. Er bod perfformiad yn y dangosydd hwn wedi codi ychydig ers 2011, mae perfformiad ym mhob blwyddyn ac eithrio 2013 wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad hefyd wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi cynyddu ond mae'r cynnydd wedi bod yn llai na'r cynnydd cenedlaethol. Mae perfformiad mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A\*-C mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi bod yn anghyson ac nid oes patrwm clir o welliant. Yn 2014, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yr ysgol mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol wedi amrywio. Gwelwyd y cynnydd gorau mewn Cymraeg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae perfformiad mathemateg, ac eithrio yn 2013, wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae holl fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi cyrraedd y trothwy lefel 3. Yn ystod y cyfnod hwn, mae sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach y chweched dosbarth wedi codi ac mae'n gyson uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.

Wedi Blwyddyn 11, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd a'r pynciau craidd yn unigol ar lefel 5 neu'n uwch yn dangos tuedd o welliant. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch yn dangos darlun mwy cymysg.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ceir bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mewn lleiafrif o ddangosyddion, nid yw'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mor amlwg oherwydd tangyflawni merched yn ogystal â'r bechgyn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn dangos tuedd o welliant mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r darlun yn fwy amrywiol. Er bod perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion wedi gwella mewn llawer o ddangosyddion yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, nid yw'r grŵp hwn o ddisgyblion yn cyflawni cystal â'r un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

Mewn tua hanner o wersi, mae disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud cynnydd da. Maent yn gallu dwyn i gof ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol newydd yn fedrus. Yn y mwyafrif o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd ac yn dangos cymhelliant amlwg tuag at eu dysgu. Maent yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau a pharau ac yn trafod tasgau'n briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athro ac ar sylwadau ac ymatebion eu cyd-ddisgyblion. Fodd bynnag, lle mae rheolaeth ddosbarth yn llai effeithiol, mae ychydig o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod i gyfrannu ar lafar ond dim ond lleiafrif sy'n cynnig atebion estynedig. Mae gan leiafrif o ddisgyblion, eirfa gynhwysfawr ac maent yn mynegi barn yn hyderus. Mewn ychydig o wersi, mae'r disgyblion yn ddihyder, yn dawel ac yn osgoi cyfrannu ar lafar. Nid ydynt yn weithwyr hollol annibynnol ac maent yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar arweiniad yr athro.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn gadarn, fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer darllen yn uchel o flaen y dosbarth yn ddigon cyson. Mae mwyafrif yn darllen yn hyderus, ond mae ychydig yn darllen yn dawel ac yn cael trafferth mynegi'n briodol. Mae llawer yn gallu cywain gwybodaeth briodol o destunau, ynghyd â labeli ac anodi testunau a threfnu eu syniadau'n addas. Mae lleiafrif o ddisgyblion uwch eu gallu yn gallu cynnig ymatebion estynedig wrth ddadansoddi a dehongli gwybodaeth o ffynonellau a thestunau amrywiol.

Ceir strwythur addas i waith ysgrifenedig llawer o ddisgyblion gydag ymwybyddiaeth gadarn o bwrpas y dasg a sut i gynllunio'n effeithiol i sicrhau bod y cynnwys a'r arddull yn briodol i'r gynulleidfa. Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion eirfa bynciol briodol ond mae geirfa disgyblion uwch eu gallu yn fwy cyfoethog. Ceir gormod o gamgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig Saesneg mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Yn y Gymraeg, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn fwy cadarn. Fodd bynnag, mae medrau ysgrifennu disgyblion is eu gallu yn dal i fod yn llai datblygiedig. Mewn lleiafrif o bynciau, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml oherwydd gorddefnydd o daflenni gwaith.

Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn ymarfer a datblygu eu medrau datrys problemau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer y medrau hyn yn ddigon aml.

Mae disgyblion yn defnyddio ystod addas o fedrau rhifedd mewn ychydig o bynciau. Fodd bynnag nid ydynt yn cymhwyso ystod digon eang a heriol o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu llunio graffiau a darllen graddfeydd syml. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn cael trafferth llunio a labelu graffiau yn gywir ac maent yn ddihyder wrth ddefnyddio'r pedair rheol rhif yn gywir.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn ennill cymhwyster TGCh ar lefel 2 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio eu medrau TGCh yn ddigon aml ar draws y cwricwlwm. Yn hytrach nag ymarfer uwch fedrau TGCh, mae'r disgyblion yn tueddu i gyflawni tasgau sylfaenol fel prosesu geiriau neu chwilio am wybodaeth ar y we.

### **Lles: Digonol**

Mae rhan fwyaf o'r disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw fwlio. Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at gadw'n iach. Mae tua hanner o ddisgyblion yn mynychu clybiau a gweithgareddau hybu ffitrwydd yn rheolaidd, er enghraifft clybiau dringo a chyfeiriannu.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn dda iawn gyda thuedd o welliant mewn cyfraddau presenoldeb y disgyblion. Mae ffigyrau presenoldeb 2013-2014 yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wedi codi'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac, yn 2013-2014, roedd yn uwch na chyfartaledd y teulu ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi lleihau'n raddol dros y pedair blynedd ddiwethaf ac mae bellach yn isel.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda o fewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae llawer yn dangos parodrwydd i weithio'n galed ac yn cyfrannu'n addas yn ystod gwersi. Mae llawer yn cyrraedd gwersi'n brydlon. Fodd bynnag, mae natur y safle yn golygu bod ychydig o ddisgyblion yn hwyr i wersi.

Ers mis Medi 2014, mae llais y disgybl yn agwedd fwy amlwg yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol a grwpiau ffocws yn mynegi barn yn rheolaidd am agweddau ar fywyd yr ysgol, er enghraifft natur gwaith cartref, gwisg ysgol a threfniadau cinio. Fodd bynnag, nid yw rôl disgyblion wrth gyfrannu at benderfyniadau wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Nid yw'r cyngor ysgol yn chwarae rôl amlwg, er enghraifft wrth benodi staff, gwerthuso dysgu ac addysgu a llunio polisïau ysgol gyfan. .

Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru sydd yn hyrwyddo cydweithio yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn chwarae rôl amlwg yn y gymuned leol. Mae disgyblion hyn yn chwarae rôl werthfawr yng nghymuned yr ysgol ac yn ysgwyddo cyfrifoldebau megis arwain yr Eisteddfod ysgol a chyfrannu at y papur bro.



Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gweithio'n ddigon annibynnol i ddatblygu'u hunandibyniaeth.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Digonol</b>
--	----------------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Darpara'r ysgol gwricwlwm addas sy'n cynnig profiadau perthnasol i ran fwyaf o'r disgyblion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi ei datblygu'n ddigonol.

Rhoddir amser priodol i ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o opsiynau cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 4 yn briodol.

Ar wahân i weithgareddau addysg gorfforol a chlybiau gwaith cartref, ceir ystod briodol o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.

Mae'r ysgol wedi mapio'r ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gwreiddio'r cyfleoedd ymysg ac ar draws y pynciau yn y ddau faes. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau digon o ddilyniant i ddisgyblion. O ganlyniad, maent yn tueddu ymarfer ystod gyfyng o fedrau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn dda ac mae ethos Cymreig i holl fywyd yr ysgol. Mae'r Eisteddfod ysgol yn rhan amlwg a gwerthfawr o fywyd Cymraeg yr ysgol. Caiff y Cwricwlwm Cymreig sylw addas ar draws y cwricwlwm, er enghraifft o fewn unedau gwaith ar yr ardal ac artistiaid lleol.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau i wella cynaliadwyedd ac arbed ynni. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn fodd gwerthfawr i hybu sawl agwedd ar ddinasyddiaeth. Mae ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 3, yn y grŵp 'Addysg Wledig Egniol' (AWE), yn cael cyfle gwerthfawr i gymryd rhan mewn prosiectau Cadwch Gymru'n Daclus ac yn dysgu am bwysigrwydd ailgylchu a gofalu am yr amgylchedd.

### **Addysgu: Digonol**

Mae rhan fwyaf o athrawon yn datblygu perthynas waith effeithiol a chefnogol gyda disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn fodolau iaith gadarn ac mae nodau'r wers yn plethu'n briodol gyda'r gweithgareddau a gynlluniwyd a dysgu blaenorol y disgyblion.

Mewn tua hanner o wersi, ceir defnydd diddorol a dychmygus o adnoddau cyfoes i ysgogi a chynnal diddordeb disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn arddangos brwdfrydedd dros y pwnc ac mae hyn yn effeithio'n bositif ar agweddau'r disgyblion. Mae'r cynllunio'n fanwl ac yn grefftus i sicrhau bod tasgau'n cynnig digon o her i ran fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae'r holi'n procio ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion a cheir rhediad addas i'r wers. Gwelir defnydd effeithiol o wybodaeth gyfoes i ennyn diddordeb y disgyblion. Yn ystod y gwersi, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau llythrennedd ac i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysgu o fewn adrannau ac ar draws yr ysgol yn cyfyngu effaith yr addysgu orau.

Mewn tua hanner o'r gwersi, lle nad yw'r dysgu mor gadarn, nid yw'r cynllunio'n ddigon effeithiol i sicrhau bod y tasgau'n cwrdd ag anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu. Mewn lleiafrif sylweddol o wersi, mae disgwyliadau athrawon o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn rhy isel ac mae hyn yn effeithio ar gyflawniad a chynnydd disgyblion. Mae cyflymder y gwersi'n rhy hamddenol ac nid yw holi'r athrawon yn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion digon. Hefyd, mae natur y tasgau'n rhy gyfyng i ddatblygu medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion yn llawn.

Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion sydd yn cefnogi'u dysgu'n dda. Mae marcio'r athrawon yn gyfoes ac, mewn lleiafrif o adrannau, ceir adborth o ansawdd uchel iawn sy'n cynnig arweiniad clir i ddisgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella'u gwaith. O fewn ychydig iawn o adrannau, ceir deialog effeithiol rhwng yr athro a'r disgyblion i gefnogi'u dysgu. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth yr athro ac yn addasu'u gwaith yn briodol. Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb yn ansawdd y sylwadau ym marcio'r athrawon ar draws yr ysgol er mwyn cael effaith digonol ar gyflawniad y disgyblion.

Nid yw trefniadau olrhain cynnydd yn ddigon effeithiol i herio tanberfformiad. Er bod yr ysgol wedi addasu agweddau ar y system olrhain cynnydd, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar gyflawniad disgyblion cyfnod allweddol 4. Ers Ionawr 2014, mae'r ysgol wedi dechrau tracio perfformiad grwpiau o ddisgyblion yn fwy manwl er mwyn adnabod achosion o dangyflawni a llunio cefnogaeth ac ymyrraeth briodol. Nid yw olrhain cynnydd yn rhan ddigon rheolaidd o waith arweinwyr canol.

Mae gormod o anghysondeb yn ansawdd adroddiadau i rieni. Mae cynnwys mwyafrif ohonynt yn rhy arwynebol ac nid ydynt yn cynnig digon o arweiniad i rieni a disgyblion ar lwyddiannau disgybl a'r meysydd penodol i'w gwella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles yn dda a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn gadarn. Mae'r sesiynau boreol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrrio. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig profiadau diddorol a pherthnasol i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Ceir cydweithio buddiol gyda Gyrfa Cymru. O ganlyniad, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn derbyn arweiniad defnyddiol i'w cynorthwyo gyda phenderfyniadau am opsiynau a chysiau.

Mae ymddygiad da yn cael ei hyrwyddo'n gyson yn yr ysgol ac mae gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i ddelio â'r achosion prin o gamymddwyn mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a'r swyddog lles i godi presenoldeb disgyblion. Mae arweinwyr cyfnodau allweddol yn cael dylanwad cadarnhaol ar hybu lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw eu rôl o ran olrhain cynnydd a dadansoddi data wedi ei datblygu'n llawn er mwyn herio tangyflawni'n effeithiol.

Mae darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn briodol. Defnyddir canlyniadau profion safonol i adnabod anghenion unigolion a darperir ymyrraeth addas i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth llythrennedd. Nid yw'r ysgol wedi gweithredu'n ddigon sydyn i wella'r ddarpariaeth i gefnogi a gwella medrau rhifedd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n briodol at lunio cynlluniau addysg unigol a rhennir crynodeb o dargedau'r cynlluniau gydag athrawon penodol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn ddigon manwl er mwyn cynnig digon o arweinaid i athrawon ar lawr dosbarth.

Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion yn ystod sesiynau ychwanegol ac yn y dosbarth.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r ysgol at ychydig iawn o faterion iechyd a diogelwch.

### **Yr amgylchedd dysgu: Digionol**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol ble caiff pob disgybl gyfle cyfartal i weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau priodol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac maent yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae gan yr ysgol ethos gwerthfawr sy'n seiliedig ar les disgyblion. Rhoddir pwyslais priodol ar barch a dathlu amrywiaeth.

Mae arddangosfeydd deniadol yn dathlu llwyddiannau disgyblion ar hyd y coridorau ac yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu sydd o safon dda. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd rheolaidd o adnoddau 'Canolfan Hamdden Plas Silyn' i gyfoethogi'r ddarpariaeth chwaraeon. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r adnodd yn llawn i sicrhau hylendid disgyblion ar ddiwedd gwersi addysg gorfforol ar dir yr ysgol.

Nid yw ansawdd ychydig o'r toiledau yn bodloni gofynion o ran hylendid.

Mae adeilad yr ysgol a nifer o'r celfi yn hen ond mae'r gwaith o'i gynnal a'i gadw, y tu mewn a'r tu allan, yn dda ac mae'r adeilad yn ddiogel.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Anfoddhaol</b>
--	-------------------

### **Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae arweinwyr a staff yr ysgol wedi wynebu cyfnod ansefydlog. Yn dilyn ymddiswyddiad y pennaeth, sefydlwyd uwch dîm rheoli newydd yn Ionawr 2014. Mae'r uwch dîm presennol yn cynnwys pennaeth dros dro, dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol. Mae ansicrwydd ynglŷn ag arweinyddiaeth yr ysgol wedi cael effaith ar allu arweinwyr i gynllunio a blaenoriaethu yn yr hir dymor. Yn ystod y cyfnod hwn, ni dderbyniodd y dirprwy bennaeth a'r pennaeth cynorthwyol gefnogaeth broffesiynol ddigonol i ddatblygu eu medrau arwain.

Mae gan yr uwch dîm rheoli weledigaeth briodol sy'n cynnwys gwella safonau a chryfhau ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth yn cael ei chyfleu yn ddigon effeithiol i'r staff cyfan oherwydd diffyg cyfathrebu ar sawl lefel.

Mae cwotgi ar aelodaeth yr uwch dim wedi cynyddu llwyth gwaith unigolion yn sylweddol. Mae hyn wedi lleihau effeithiolrwydd y tîm ac mae dosbarthiad cyfrifoldebau'r uwch dîm yn amhriodol. Mae gormod o gyfrifoldebau ganddynt i weithredu'n strategol.

Yn ddiweddar, sefydlwyd prosesau addas ar gyfer sicrhau gwell atebolrwydd ymysg arweinwyr ac mae'r prosesau yn datblygu'n briodol. Mae gan bob aelod o'r uwch dîm gyfrifoldebau rheoli llinell addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn dal arweinwyr canol i gyfrif yn ddigon trylwyr. Nid yw prosesau'r ysgol yn sicrhau bod gweithredu digon effeithiol a chynnar yn digwydd mewn achosion o danberfformio. Mae lefel yr her a gyflwynir yn anghyson.

Ni chynhelir cyfarfodydd rheoli llinell ffurfiol yn ddigon aml gyda'r adrannau sydd yn peri pryder. Nid yw'r cyfarfodydd sydd yn cynnwys pob arweinwyr canol yn ddigon rheolaidd i sicrhau cysondeb yn y ffordd maent yn gweithredu a monitro polisïau ysgol-gyfan. Er bod cyfarfodydd aml rhwng aelodau'r uwch dim rheoli, nid oes unrhyw gyfarfodydd ffurfiol rhwng y pennaeth ac aelodau unigol o'r uwch dîm i roi digon o gyfeiriad strategol i'r arweinwyr hyn.

Mae medrau arweinyddiaeth hanner yr arweinwyr pwnc yn dda ac maent yn blaenoriaethu meysydd datblygu eu hadrannau yn addas. Fodd bynnag, oherwydd yr amrywiaeth ymhlith effeithiolrwydd yr arweinwyr pwnc, mae anghysondeb yn y modd mae athrawon yn cael eu dwyn i gyfrif yn ffurfiol er mwyn codi safonau dysgu ac addysgu.

Nid yw'r ysgol yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol i reoli perfformiad athrawon. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes unrhyw ddisgrifiadau swydd unigol ac, o ganlyniad, ni ellir dwyn staff i gyfrif. Mae'r amcanion rheoli perfformiad yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r amcanion hyn yn ddigon heriol. Ni all arweinwyr pwnc ddal aelodau o'u hadrannau i gyfrif drwy'r broses hon oherwydd bod yr amcanion rheoli perfformiad wedi'u cytuno rhwng yr uwch dîm rheoli ac unigolion.

Mae aelodaeth y corff llywodraethol wedi newid ers Medi 2014, ac o ganlyniad, gwelir gwell ymwybyddiaeth o lefel yr her sy'n wynebu'r ysgol a'r agweddau pwysig sydd angen eu blaenoriaethu. Yn ddiweddar, sefydlwyd is-bwyllgor monitro ansawdd addas gan y corff sydd wedi sicrhau mynediad llywodraethwyr at ystod ehangach o wybodaeth am safonau a darpariaeth yn yr ysgol. Mae pob aelod o'r corff llywodraethol wedi'i gysylltu'n briodol ag adran benodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw llywodraethwyr yn herio'r adrannau yn ddigon trylwyr o ran y safonau a gyflawnir ac ansawdd yr addysgu. Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac, yn ddiweddar, maent wedi cymryd camau mwy cadarn i ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol.

Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn ddigon cyflym i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, nid ydynt wedi gwneud digon o gynnydd tuag at fodloni gofynion statudol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Dim ond yn ddiweddar y mae'r ysgol wedi ymateb yn fwy strategol i leihau effaith amddifadedd ar gyflawniad disgyblion.

## **Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol ystod briodol o weithgareddau pwrpasol ar gyfer sicrhau ansawdd a hunanarfarnu. Mae'r uwch dîm rheoli wedi cryfhau'r broses hunanarfarnu yn ddiweddar i sicrhau ffocws a natur gadarn i'r gweithgareddau. Mae'r newidiadau wedi cyfrannu at welliannau mewn meysydd pwysig, megis presenoldeb disgyblion, ond nid yw'r uwch dîm wedi llwyddo i godi safonau nac i wella safon yr addysgu. Nid yw'r uwch dîm wedi gwneud digon i godi safonau mewn adrannau sydd wedi tanberfformio dros nifer o flynyddoedd.

Mewn cyfnod byr o amser, mae'r uwch dîm rheoli wedi miniogi rhaglen briodol o weithgareddau hunan arfarnu, gan gynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, cyfarfodydd adran cyson a dadansoddi data perfformiad.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol-gyfan yn fanwl ac yn arfarnu nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad data cynhwysfawr ac yn amlinellu llawer o'r cryfderau a meysydd i'w gwella. Serch hynny, mae nifer o'r adroddiadau adrannol yn rhy ddisgrifiadol ac yn nodi'r prosesau yn hytrach na gwerthuso effaith y ddarpariaeth. Nid yw'r adroddiadau yn talu digon o sylw i ansawdd arweinyddiaeth ganol, safon yr addysgu neu i danberfformiad lleiafrif o'r adrannau dros nifer o flynyddoedd.

Mae cyswllt priodol rhwng cynllun datblygu'r ysgol a chynlluniau datblygu adrannau. Mae'r cynlluniau datblygu yn seiliedig yn briodol ar dair prif flaenoriaeth yr ysgol. Fodd bynnag, mae cynlluniau gwella'r ysgol a'r adrannau yn cynnwys gormod o feysydd i'w gwella. O ganlyniad, nid oes digon o ffocws gan yr ysgol ar y meysydd pwysig i wella, gan gynnwys safon yr addysgu, codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau. Er bod targedau priodol yn y cynlluniau datblygu, nid yw nifer ohonynt yn ddigon penodol, heriol na mesuradwy. Nid yw'r camau gweithredu yn ddigon penodol i fynd i'r afael â lleiafrif o'r gwendidau pwysig ym mherfformiad yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi cryfhau systemau ar gyfer casglu barn disgyblion am waith yr ysgol. Mae grwpiau ffocws a holiaduron yn dechrau cyfrannu tuag at y broses hunanarfarnu. Yn yr un modd, mae'r ysgol wedi cynnal ychydig o gyfarfodydd buddiol i gasglu barn ychydig o rieni. Serch hynny, nid yw'r ysgol yn gwneud digon i sicrhau fod barn y disgyblion a rhieni yn dylanwadu ar gasgliadau'r hunanarfarnu neu ar gynllunio i wella meysydd pwysig o waith yr ysgol.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn y rhan fwyaf o argymhellion yr arolygiad diwethaf. Mae systemau hunanarfarnu wedi gwella yn ddiweddar, ond mae diffygion amlwg yn safonau yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, mae gormod o anghysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth ganol.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau addas sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth a phrofiadau disgyblion. Mae partneriaeth effeithiol gydag ysgolion eraill i gynnal ystod eang o bynciau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae partneriaeth â'r coleg addysg bellach lleol yn cynnig ystod eang o gyrsiau

galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r bartneriaeth yn cyfrannu at nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 1 a throthwy lefel 2. Ar y cyfan, mae'rartneriaethau hyn yn ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ac yn darparu pynciau na fyddai'r ysgol yn medru eu cynnig yn gost effeithiol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a gynigir gan y partneriaid.

Mae partneriaethau â chyflogwyr lleol yn effeithiol ac yn cynorthwyo'r ysgol i baratoi disgyblion ar gyfer y byd gwaith. Mae cysylltiadau disgyblion 'AWE' â'r gymuned yn creu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion i wella'r amgylchedd ac i ddatblygu medrau sylfaenol personol ac ymarferol.

Mae partneriaethau priodol rhwng yr ysgol a'i hysgolion partner cynradd i sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 7 yn ymgartrefu yn yr ysgol yn gyflym.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau pwrpasol gyda rhieni. Maent yn cynnig ystod addas o gyfleoedd i rieni i ymweld â'r ysgol i drafod cynnydd eu plant ac i drafod y pynciau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas agored gyda rhieni. Serch hynny, nid ydy'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu systemau cadarn i gryfhau dylanwad rhieni ar agweddau sy'n effeithio ar addysgu a safonau eu plant. O ganlyniad, mae hyn wedi effeithio ar natur y berthynas rhwng yr ysgol a lleiafrif o rieni.

Mae'r ysgol yn defnyddio grantiau perthnasol yn addas i leihau effaith tlodi ar bresenoldeb disgyblion.

### **Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Yn gyffredinol, mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm. Mae gan bob aelod o staff gymwysterau addas, gyda bron pob un yn addysgu ei bwnc arbenigol a'i ail bwnc. Mae cymorthyddion dysgu yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gynnydd y disgyblion dan eu gofal. Fodd bynnag, nid oes strwythur priodol i sicrhau bod yr uwch dîm rheoli yn derbyn cefnogaeth weinyddol briodol.

Mae'r ysgol wedi ailsefydlu gweithgorau proffesiynol yn ddiweddar sydd yn dechrau ymateb yn addas i faterion megis datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd, a medrau meddwl. Ar hyn o bryd, nid ydynt wedi cael effaith uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu nac ar safonau. Mae'r trefniadau i fodloni anghenion datblygiad proffesiynol parhaus staff a blaenoriaethau'r ysgol yn aneffeithiol.

Trwy fonitro priodol gan y swyddog gweinyddol ac is-banel cyllid y llywodraethwyr, mae'r ysgol yn adolygu ei chostau yn gyson. Mae ychydig o warged gan yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r chweched dosbarth yn gost effeithiol.

Defnyddia'r ysgol y grant amddifadedd disgyblion yn addas i alluogi disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim i wella'u presenoldeb yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau wedi cael digon o effaith ar gyflawniad yng nghyfnod allweddol 4.

Yng ngoleuni'r safonau anfoddhaol a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf. Ac eithrio yn 2014, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, ac eithrio yn 2013, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Dros yr un cyfnod, bu ychydig o gynnydd yn y pynciau craidd yn unigol. Mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu'n uwch wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% is o ysgolion tebyg yn ystod tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2014, roedd perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 yn uwch na chyfartaledd y teulu wedi tair blynedd o fod yn is na'r teulu. Fodd bynnag, roedd perfformiad rhwng 2011 a 2013 wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad yn 2014 ymysg y 50% is. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ychydig dros y blynyddoedd diwethaf ond wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Eleni, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi cynyddu ac wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Cymraeg wedi bod yn well na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad ym mhob blwyddyn wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Er bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 mewn llawer o'r dangosyddion wedi cynyddu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn dal i gymharu'n llai ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd perfformiad llawer o ddangosyddion islaw cyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn gyffredinol, ac eithrio yn 2013, nid yw disgyblion yn cyflawni'n ddigon da yn ystod eu hamser yn yr ysgol, yn enwedig yn y dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg.

Yn 2014, roedd perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys pum TGAU graddau A\*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gostwng o gymharu â pherfformiad 2013. Er bod perfformiad yn y dangosydd hwn wedi codi ychydig ers 2011, mae perfformiad ym mhob blwyddyn ac eithrio yn 2013 wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad hefyd wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi cynyddu ond mae lefel y cynnydd wedi bod yn llai na lefel y cynnydd cenedlaethol. Mae perfformiad mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A\*-C yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod yn anghyson ac nid oes patrwm clir o welliant. Yn 2014, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn sylweddol is na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yr ysgol mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gostwng ychydig yn 2014. Wedi tair blynedd yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn 2014 wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi aros yn eithaf sefydlog ac eithrio yn 2013. Mae perfformiad mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn.

Yn gyffredinol, mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 wedi gostwng ychydig ers 2011. Mae perfformiad wedi bod yn y 50% is o ysgolion tebyg yn ystod tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn. Mae perfformiad mewn Cymraeg wedi gwella ers 2011 ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi gwella'n sylweddol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella ychydig ers 2011, fodd bynnag, ac eithrio yn 2013, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ac mae'n is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae holl fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi cyrraedd y trothwy lefel 3. Yn ystod y cyfnod hwn mae sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach y chweched dosbarth wedi codi ac mae'n gyson uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.



Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ceir bwloch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mewn lleiafrif o ddangosyddion, nid yw'r bwloch rhwng perfformiad bechgyn a merched mor amlwg oherwydd tangyflawni merched yn ogystal â'r bechgyn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn dangos tuedd o welliant mewn llawer o ddangosyddion. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r darlun yn fwy amrywiol. Er bod perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion wedi gwella'n sylweddol mewn llawer o ddangosyddion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, nid yw'r grŵp hwn o ddisgyblion yn cyflawni cystal â'r un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd canran y grŵp hwn o ddisgyblion a oedd wedi ennill y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi cynyddu ychydig ar berfformiad 2013 ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi gwella yn 2013 a 2014 ond roedd yn dal i fod yn is na chyfartaledd y teulu. Yn 2014, roedd perfformiad disgyblion yn y trothwy lefel 1 a'r sgor bwyntiau gyfartalog ehangach wedi lleihau'n sylweddol ac roedd yn is na chyfartaledd y teulu. Yn ystod 2014, roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn y trothwy lefel 2 ar gyfer Saesneg a Chymraeg yn dda iawn ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu. Er bod ychydig iawn o welliant, roedd perfformiad yn dal i fod yn is na chyfartaledd y teulu. Roedd cynnydd sylweddol ym mherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn y trothwy lefel 2 ar gyfer gwyddoniaeth ond roedd perfformiad yn 2014 yn dal i fod yn is na chyfartaledd y teulu.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	140	80 57%	55 39%	4 3%	1 1%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		43%	53%	4%	1%	
The school deals well with any bullying	140	46 33%	78 56%	13 9%	3 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		25%	58%	14%	3%	
I have someone to talk to if I am worried	139	56 40%	66 47%	15 11%	2 1%	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni.
		38%	53%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	139	44 32%	77 55%	15 11%	3 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		23%	57%	18%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	140	66 47%	66 47%	7 5%	1 1%	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		45%	45%	9%	2%	
I am doing well at school	140	28 20%	98 70%	13 9%	1 1%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		32%	62%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	140	50 36%	72 51%	15 11%	3 2%	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		38%	55%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	140	35 25%	78 56%	22 16%	5 4%	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	139	61 44%	71 51%	5 4%	2 1%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		45%	47%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	139	16 12%	80 58%	37 27%	6 4%	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		10%	57%	27%	6%	
Staff treat all pupils fairly and with respect	139	50 36%	61 44%	20 14%	8 6%	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
		28%	51%	17%	4%	

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
The school listens to our views and makes changes we suggest	139	19 14%	74 53%	37 27%	9 6%	Mae'r ysgol yn gwrandao ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
		16%	54%	25%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	139	53 38%	79 57%	5 4%	2 1%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosod fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
		34%	60%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	139	46 33%	73 53%	14 10%	6 4%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
		35%	55%	9%	1%	
The staff respect me and my background	140	57 41%	75 54%	8 6%	0 0%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
		37%	54%	7%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	128	39 30%	85 66%	4 3%	0 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
		36%	56%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	46	24 52%	19 41%	3 7%	0 0%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
		28%	52%	16%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	28	3 11%	21 75%	4 14%	0 0%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
		27%	51%	16%	6%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	109	28 26%	70 64%	5 5%	5 5%	1	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		43%	51%	4%	1%		
My child likes this school.	110	35 32%	65 59%	4 4%	6 5%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		46%	48%	4%	1%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	110	39 35%	63 57%	5 5%	2 2%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		49%	45%	3%	1%		
My child is making good progress at school.	108	34 31%	65 60%	8 7%	1 1%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		45%	48%	4%	1%		
Pupils behave well in school.	107	16 15%	65 61%	11 10%	4 4%	11	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		22%	54%	11%	3%		
Teaching is good.	107	16 15%	66 62%	14 13%	6 6%	5	Mae'r addysgu yn dda.
		33%	57%	5%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	108	45 42%	47 44%	10 9%	0 0%	6	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		50%	46%	2%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	107	20 19%	63 59%	17 16%	2 2%	5	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		31%	53%	8%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	110	24 22%	55 50%	15 14%	7 6%	9	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		32%	48%	9%	2%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	109	27 25%	70 64%	5 5%	0 0%	7	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		33%	53%	7%	1%		
My child is safe at school.	110	37 34%	66 60%	5 5%	1 1%	1	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		41%	52%	3%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	98	21 21%	49 50%	10 10%	3 3%	15	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		32%	46%	7%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	106	22 21%	59 56%	20 19%	4 4%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		33%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	107	33 31%	61 57%	11 10%	1 1%	1	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		41%	48%	7%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	109	26 24%	56 51%	8 7%	4 4%	15	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		27%	50%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	105	25 24%	62 59%	7 7%	4 4%	7	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		35%	53%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	100	19 19%	49 49%	10 10%	3 3%	19	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		26%	46%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	109	13 12%	55 50%	22 20%	5 5%	14	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		35%	49%	9%	2%		
The school is well run.	107	22 21%	60 56%	11 10%	5 5%	9	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		40%	49%	5%	2%		

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Catherine Evans	Arolygydd Cofnodol
William Thomas	Arolygydd Tîm
Huw Collins	Arolygydd Tîm
Anwen Griffith	Arolygydd Tîm
Gwen Aubrey	Arolygydd Lleyg
Heather Lewis	Arolygydd Cymheiriaid
Gwern ap Rhisiart	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.